



SGANIWR DIOGELWCH

GWYBODAETH I GWSMERIAID

Fel rhan o'r gwelliannau yn yr ardal archwilio diogelwch mae Maes Awyr Caerdydd wedi gosod sганиwr diogelwch newydd, y diweddaraf o'i fath, i ategu'r dechnoleg sydd eisoes yno. Bydd y sганиwr newydd yn gwneud y broses archwilio yn fwy effeithlon ac yn llai ymwithiol i gwsmeriaid sy'n mynd drwy'r ardal ddiogelwch.

SUT MAE SGANWYR DIOGELWCH YN GWEITHIO?

**SAFLE SGANIO:
SEFWCH YN
LLONYDD AM 3
EILIAD**

Mae gan y sganwr nodwedd adnabod a synhwyro bygythiad awtomatig sy'n arddangos bygythiadau posibl fel delwedd gyfrifiadurol.

Bydd staff diogelwch wedyn yn defnyddio'r wybodaeth yma i benderfynu os fydd angen sgrinio ymhellach.

YDYN NHW'N DDIOGEL?

Ydyn, cafodd y sganwyr eu hasesu gan reoleiddwyr iechyd a diogelwch y Llywodraeth ac maen nhw'n gwbl ddiogel i bawb eu defnyddio yn cynnwys merched beichiog, plant ac unrhyw un sydd â mewnbliadau meddygol.

PWY FYDD YN EU DEFNYDDIO?

Gofynnir i gwsmeriaid eu defnyddio am nifer o resymau gan gynnwys dewis ar hap.

OES DEWIS ARALL?

Mae sganwyr yn ddull llai ymwithiol o archwilio felly rydym yn gobeithio y byddwch yn eu defnyddio. Os bydd cwsmer yn cael ei ddewis ac yn penderfynu peidio mynd drwy'r sganwr, mae deddfwriaeth diogelwch yn mynnu ein bod yn cynnal archwiliad preifat, a wneir gan staff diogelwch mewn ystafell gyfagos.

Mae hyn hefyd yn berthnasol i blant.

SUT MAE PREIFATRWYDD YN CAEL EI DDIOGELU?

Mae'r nodwedd adnabod a synhwyro bygythiad awtomatig yn cael gwared â'r angen i ddangos delwedd benodol o'r unigolyn. Gwneir asesiad o ddata'r sganwr drwy ddefnyddio algorithm cyfrifiadurol; nid oes delweddau o unigolion yn cael eu creu ac felly nid oes tresmasu ar breifatwydd.



SUT I'W DEFNYDDIO?

Cam 1: bydd staff diogelwch yn gofyn i chigamu i mewn i'r sganwr


Cam 2: sefwch ar yr olion traed melyn yn y sganwr, gyda'ch breichiau yn yr awr uwch eich pen (ni ddylai'ch dwylo gyffwrdd ei gilydd)

Cam 3: sefwch yn llonydd am tua 3 eiliad neu nes cewch wybod bod y sgan ar ben

Cam 4: cewch eich galw i adael y sganwr

Cam 5: os yn glir cewch barhau i fynd drwy'r ardal ddiogelwch fel arfer **NEU**

Cam 5: os bydd larwm y sganwr yn canu bydd sgrinio pellach yn digwydd er mwyn canfod beth a achosodd y larwm i ganu.



AM FWY O WYBODAETH

Mae'r wybodaeth yma ar gael ar www.cardiff-airport.com

Mae gwybodaeth ar gael gan yr Adran Ddrafnidiaeth am sganwyr diogelwch ar www.dft.gov.uk